tafod elái

Gorffennaf 2020

Rhif 349

Croeso Nôl!

Blwyddyn 3 a blwyddyn 7 oedd y ddau ddosbarth cyntaf i ddod nôl i Ysgol Llanhari ar ôl y cyfnod cloi lawr. Ac roedd y disgyblion a'r athrawon yn falch iawn o gael dod at ei gilydd unwaith eto.

Fideo Ysgol Garth Olwg

Mae Ysgol Garth Olwg wedi creu fideo arbennig o Calon Lân sy'n dangos doniau y disgyblion a'u teuluoedd. Diolch i bawb a gyfrannodd at y fideo yn enwedig Mr Bennett am ei oriau maith yn cyfuno 82 fideo gwahanol!

Gallwch weld y fideo yma - https://www.youtube.com/watch?v=dGC4KObgbfc

Dathlu Adeiladu Tabernacl

Adeiladwyd y Capel Tabernacl gwreiddiol yn Efail Isaf yn 1843, ond fe welwyd fod yr adeilad yn rhy fach ar gyfer y gynulleidfa oedd wedi dod i'r ardal. Felly yn 1869 dymchwelwyd y capel ac agorwyd capel newydd ar y safle ar 3 Gorffennaf 1870.

Eleni mae'r capel yn dathlu 150 mlynedd ers agor yr adeilad newydd. Mae'r capel yn parhau i fod yn rhan ganolog o fywyd cymdeithasol yr ardal ac yn cynnal llu o weithgareddau.

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau i ddathlu achlysur y 150 mlynedd ond bu rhaid eu gohirio oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Er hynny bydd cyfle i olrhain hanes a llwyddiant y capel ar wefan www.tabernacl.org ac ar dudalen facebook y capel. Ceir rhagor o fanylion yng ngholofn Efail Isaf.

Capel Tabernacl, Efail Isaf yn 1900

Mae'r gwaith o ddilyn cyfarwyddiadau newydd a pharatoi ar gyfer disgyblion wedi bod yn mynd ymlaen yn holl ysgolion yr ardal ac roedd yn brofiad hyfryd i gael croesawu'r disgyblion yn ôl i'n hysgolion.

Cadw Adran Frys a Damweiniau

Croesawyd penderfyniad Bwrdd Iechyd Cwm Taf i barhau i gynnal Adran Frys yn Ysbyty Morgannwg, Llantrisant. Bu'n ymgyrch galed a chafwyd cefnogaeth miloedd o bob cwr o'r ardal. Dywedodd y Cynghorydd dros Bontypridd, Heledd Fychan: "Rydym i gyd yn gwybod pa mor hanfodol yw'r gwasanaeth hwn i'n cymuned, ac rydym hefyd yn gwybod y bydd bywydau wedi'u hachub oherwydd hyn. Mae hon yn fuddugoliaeth enfawr i drigolion lleol sydd wedi ymgyrchu yn galed i gadw'r gwasanaeth hwn.

"Diolch i'r miloedd o bobl a lofnododd ddeiseb, a ysgrifennodd at y Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a gwleidyddion lleol, ac a arddangosodd bosteri a rhubanau. Mae grym y bobl wedi ennill y dydd gyda rhesymeg a dadleuon cadarn. Hoffwn ddweud diolch yn arbennig i Grŵp Ymgyrchu SRGAE (Save Royal Glamorgan Accident and Emergency) am eu holl ymdrechion.

Tafod Elái ar y Wê

Mae'r rhifyn yma yn cael ei ddosbarthu drwy ebost. Rhannwch gyda'ch ffrindiau. Danfonwch ymlaen i unrhyw un sy'n gallu, neu dysgu, siarad Cymraeg. Danfonwch ymlaen i holl aelodau eich cymdeithasau. Danfonwch i unrhyw le yn y byd!

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Medi
i gyrraedd erbyn 26 Awst 2020
Cyhoeddir y rhifyn os daw
digon o ddeunydd i law.

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Merched Y Wawr yn cadw mewn cysylltiad

Mae'n syndod faint ohonom sy'n defnyddio'r rhyngrwyd i gyfathrebu. Mae Zoom yn boblogaidd iawn ac yn gyfle i gael sgwrs gyda ffrindiau, cadw'n heini, cymryd rhan mewn ambell gwis ac hefyd cwrdd â pobl newydd. Mae sawl aelod o Ferched Y Wawr cangen Tonysguboriau wedi ymuno â'r grŵp sgwrsio ar fore Iau, wedi ei drefnu gan Jên Dafis, Swyddog Datblygu MYW. Pwrpas y cyfarfod yw rhoi rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Mae'r pynciau a bennir yn amrywiol gyda thrafodaethau defnyddiol ar lyfrau Cymraeg sy'n addas i ddysgwyr. Mae croeso i unrhyw un sy'n dysgu'r iaith i ymuno trwy gysylltu â Jên ar jen@merchedywawr.com

Yn ychwanegol i hyn mae croeso i aelodau'r gangen ymuno mewn cyfarfod anffurfiol ar Zoom wedi ei gychwyn gan Eluned ar fore Mercher am 9.30 y bore. Ar Nos Sadwrn 27ain o Fehefin cynhaliwyd Noson Werin Rhithiol ar Zoom gyda Sian James. Trefnwyd y noson gan swyddogion pwyllgor Rhanbarth Y De Ddwyrain i gymryd lle yr Ŵyl Wanwyn gafodd ei gohurio. Roedd yn arbrawf llwyddianus gyda hanner cant o aelodau MYW y rhanbarth yn mwynhau gweld a gwrando ar Siân yn perfformio o'i chartref yn Llanerfyl, Sir Drefaldwyn.

Seiclo 150 Milltir

Mae Amanda Harris o Feisgyn, Pontyclun wedi codi dros £2,700 i brosiect ac elusen Horatio's Garden trwy gwblhau her seiclo yn ei gardd. Llwyddodd Ms Harris seiclo 150 milltir, sydd yn anhygoel wrth ystyried y tywydd poeth rydym wedi cael. Mae Prosiect Horatio's Garden yn bwriadu adeiladu gardd yn Ysbyty Llandochau, lle bydd y ganolfan newydd Adsefydlu Anafiadau Cord Asgwrn Cefn Cymru, ond mae'r pandemig wedi cael effaith wael ar godi arian i'r prosiect ac mae dal angen ffeindio £275,000 i ddechrau'r ardd. Roedd Ms Harris yn glaf yn Ysbyty Rookwood, lle mae'r ganolfan ar hyn o bryd, 6 mlynedd yn ôl. Dwedodd fod gallu mynd allan ar dir Ysbyty Rookwood wedi helpu'r trawma o aros ar y ward am 6 mis.

Fe fydd y ganolfan newydd yn agor blwyddyn nesaf a bwriad yr ardd yw rhoi ardal dawel i gleifion sydd yn aros yn yr ysbyty. Fe wnaeth Ms Harris esbonio rheswm ei her ar newyddion BBC Wales yn ddiweddar, ac mae wedi cwblhau'r her ar feic tair olwyn sydd wedi ei addasu a'i osod ar roleri yn ei gardd. Dwedodd hi pa mor bwysig ydy cael lle i gleifion fynd tra'n addasu i fywyd ar ôl anafiad cord asgwrn cefn. Mae yna fwy o wybodaeth ar ei gwefan https://www.justgiving.com/fundraising/amanda-harris36.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Croeso Phoebe

Ar ôl disgwyl hir a milltiroedd o gerdded y goedwig o gwmpas Cefn Bychan, croesawodd Mam a Dad, Kati ac Adam, eu merch fach annwyl, Phoebe Anwen Mai Turner i'r byd ddydd Iau, Mehefin 4ydd. Cafodd Phoebe ei geni gartre yn Y Bwthyn - babi cynta' Cefn Bychan ers blynydde cred y teulu. Croeso mawr i Phoebe a'n llongyfarchiade a'n dymuniade gore iddynt fel teulu bach.

Cyhoeddi Llyfr yn Saesneg
Llongyfarchiadau i Rowland Wynne ar gyhoeddi ei gyfrol ar Evan James Williams. Bu cryn glod i'r cyhoeddiad Cymraeg pan ymddangosodd yn 2017 ac nawr mae cyfle i ehangu gwybodaeth am un o'n Gwyddonwyr amlycaf.



Adolygiad barnwrol i ad-drefnu ysgolion ym Mhontypridd

Cafodd cynlluniau dadleuol Cyngor Rhondda Cynon Taf i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd eu trafod mewn adolygiad barnwrol yn ddiweddar.

Roedd *Ein Plant Yn Gyntaf* a *Brwydro Dros Addysg Gymraeg yn Lleol,* grwpiau ymgyrchu sy'n cynnwys rhieni, pobl ifanc, llywodraethwyr a chynghorwyr, wedi dadlau fod y broses ymgynghori i gynlluniau Ysgolion 21ain Ganrif wedi bod yn ddiffygiol ac nad oedd opsiynau eraill wedi cael eu hystyried.

Fis Gorffennaf 2019 cymeradwyodd Cabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf gynlluniau i gau chwe ysgol ym Mhontypridd a sefydlu dwy ysgol ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 16 oed ym Mhontypridd a'r Ddraenen-wen.

Mae'r cynlluniau hefyd yn bwriadu cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn (dwy iaith) ac agor Ysgol Gynradd Sirol Cyfrwng Cymraeg newydd mwy o faint ar safle hen Ysgol Gynradd Heol y Celyn.

Tra'n croesawu yr angen i fuddsoddi mewn adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Pont Sion Norton, mae'r ymgyrchwyr yn dadlau y gall y penderfyniad i agor ysgol newydd yn Rhydyfelin, i'r de o'r dref, gael effaith ar ffyniant yr iaith Gymraeg yng nghymunedau gogledd Pontypridd. Dylai Addysg Gymraeg fod yn hygyrch i bawb, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Yn dilyn derbyn cwyn mae Comisynydd y Gymraeg hefyd yn archwilio os yw'r Cyngor wedi torri y safonau iaith.

Disgwylir ddyfarniad yr adolygiad barnwrol rhyw ben yn ystod Gorffennaf.

Eurgain Haf

Ysgol Pont-Siôn-Norton

Croeso nôl!
Croeso nôl i holl ddisgyblion yr ysgol ar ôl bod adre ers mis Mawrth. Mae'r staff wrth eu boddau yn eich gweld eto!

Hwyl Fawr!
Rydym ni'n drist iawn gorfod ffarwelio â Miss Reeves ar ddiwedd y tymor. Diolch i ti am dy holl waith a'th egni o gwmpas yr ysgol - yn enwedig gyda'r TGCH!!

Newidiadau
Croeso i Mrs Nerys MacDonald sydd yn dechrau gyda ni ym mis Medi fel arweinydd y Cyfnod Sylfaen.

Cantorion Creigiau

Fel bob côr arall mae Cantorion Creigiau wedi cael ei effeithio'n arw gan y cyfyngiadau presennol. Roedd Neuadd yr Eglwys, Creigiau yn llawn ar gyfer eu Cyngerdd Carolau blynyddol ar 22 Rhagfyr. Casglwyd £422 yn y cyngerdd ar gyfer elusen plant CDH UK sy'n cefnogi babanod sydd a nam ar eu hysgyfaint. Bu'r côr mewn cyngerdd ym Mhenarth ym mis Ionawr ac yn Y Rhws ar ddiwedd Chwefror. Y gobaith nawr yw y gellir ail-ymgynull i baratoi ar gyfer dathlu 50fed Cyngerdd Carolau y côr ar 20 Rhagfyr 2020.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Eirian ac Ann Rees, Penywaun sydd yn dathlu eu Priodas Diemwnt ar Orffennaf 30ain. Gobeithio y cewch gyfle fel teulu i ddathlu'r garreg filltir hynod hon.

Brysiwch Wella
Dymunwn yn dda i Dave Eyres, Heol Iscoed sydd wedi derbyn triniaeth ar ei lygad yn yr ysbyty yn ystod y mis. Brysia wella, Dave.

Graddio
Longyfarchiadau gwresog i Branwen, merch hynaf Iolo a Catrin Roberts, Nant y felin, Heol y Mynydd, ar dderbyn gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg o Goleg Prifysgol Bangor.

Y TABERNACL
Boreau Sul
Mae'r cyfle i aelodau'r Tabernacl i gyd-addoli ar foreau Sul drwy ddilyn gwahanol lwyfannau digidol yr eglwys yn parhau'n hynod o ddiddorol a buddiol. Diolch i bawb sy'n cyfrannu a rhoi o'u hamser i baratoi'r gwasanaethau bob bore Sul.

Cymorth Cristnogol
Soniais yn rhifyn mis Mehefin i'r Gweithgor Cyfiawnder cymdeithasol orfod newid y dull o gefnogi Cymorth Cristnogol eleni gan nad oedd yn bosibl mynd o ddrws i ddrws i gasglu. Yn hytrach trefnwyd casgliad ymhlith yr aelodau. Bu'r cyfrannu drwy drosglwyddiad banc neu drwy anfon siec i'n trysorydd a bu'n fodd i godi'r swm anrhydeddus o £1625.

Y Banc Bwyd
Mae mwy o bobl nag erioed yn dibynnu ar y banc Bwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Yn anffodus fedr aelodau'r tabernacl ddim cyfrannu yn y ffordd arferol o gyflwyno bwyd yn wythnosol yn ystod yr Oedfaon. Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn croesawu cyfraniadau ariannol ar gyfer y Banc bwyd drwy law ein trysorydd Mr Arwyn Lloyd Jones.

Tafod y Tab
Cyhoeddir rhifyn nesaf o Tafod y Tab yn ddigidol yn ystod wythnos gyntaf Gorffennaf. Bydd y rhifyn yn cynnwys yr arlwy arferol o newyddion, erthyglau a lluniau. Diolch o galon i Gwilym ac Eleri Huws am eu gwaith diflino yn paratoi'r cylchgrawn ar gyfer yr aelodau.

Mae'r rhifyn arbennig yma'n mynd i gynnwys atodiad i ddathlu 150 mlwyddiant ail-agor y capel ar ei newydd wedd yn 1870. Emlyn Davies yw Golygydd yr Atodiad a cheir hanes yr achos yn Y Tabernacl o'r dechreuad hyd at y dydd heddiw. Gobeithir atgynhyrchu'r atodiad ar bapur fel cofrodd unwaith y bydd rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd.

Dringo i Gopa'r Wyddfa
Llongyfarchiadau i un o ffyddloniaid Y Tabernacl am ddringo i Gopa'r Wyddfa yn blygeiniol fore Llun, y cyntaf o Fehefin. Wel na, ddim yn hollol! Fu Eurgain Haf, sy'n gweithio i Achub y Plant, ddim pellach na gardd ei chartref ym Mhontypridd. Fe wnaeth ddringo'r grisiau serth yn yr

ardd 250 o weithiau sydd yn cyfateb ag uchder y Wyddfa.

Soniodd ar y rhaglen "Prynhawn Da" am dri rheswm dros gyflawni'r orchest. Y cyntaf oedd i feddwl am ei theulu a'i ffrindiau yng Ngwynedd, yr ail reswm oedd i gadw'n heini. Y Trydydd, ond nid y lleiaf oedd i godi arian i Ymgyrch Coronafeirws Achub y Plant i gefnogi'r teuluoedd mwyaf bregus sydd wedi eu heffeithio'n wael gyda'r haint. Llongyfarchiadau oddi wrth aelodau'r Tabernacl i chi Eurgain. Mae'n siŵr fod y plant Cian Harri a Lois Rhodd yn falch iawn o'i mam.

Gwedd-newid Clwb y Bont

Yn dilyn y llifogydd dinistriol ym mis Chwefror mae llawer wedi bod yn digwydd yn Clwb Y Bont. Rydyn ni wedi bod yn glanhau, sychu a chodi arian a hoffem ddweud diolch o galon i bawb sydd wedi ein cefnogi. Rydym hefyd wedi bod yn cynllunio sut y byddwn yn ailagor a sut rydyn ni eisiau i'r Clwb edrych.

Rydyn ni'n gyffrous iawn bod y rhaglen deledu Prosiect Pum Mil wedi dewis y Clwb i ymddangos yn eu cyfres nesaf. Mae eu dylunwyr a'u harbenigwyr yn gweithio gyda'r Clwb fel y bydd y prif far a'r ystafell ddigwyddiadau yn edrych yn wych pan fyddwn yn ailagor.

Fel rhan o'r prosiect mae angen gwirfoddolwyr arnom. Yn enwedig seiri coed, plymars a thrydanwyr ond mae croeso i bawb!

Os hoffech helpu, e-bostiwch clwbybont@gmail.com

Gallwch ganfod mwy am Brosiect Pum Mil yma https://www.boomcymru.co.uk/cynnwys/prosiect-pum-mil/

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Rhiannon Price

Cerdded i godi arian
Mae anghenion elusennau yn parhau ond cyfraniadau wedi lleihau yn aruthrol. Amcangyfrifir fod elusen Macmillan yn derbyn bron 50% yn llai na'r arfer o achos y pandemig. Serch hynny, mae'n galonogol gweld bod pobl yn parhau i ddefnyddio eu menter a'u hamser i godi arian.

Dau o'r rhai'n yw David Perry a'i wraig. Mae nifer ohonoch yn nabod David fel perchennog cwmni teithio ym Mhentre'r Eglwys. Roeddynt,ac aelodau eraill o'r teulu, wedi cofrestru i gymryd rhan yn hanner marathon a thaith gerdded y Gwyr sy'n cael eu trefnu gan Macmillan. Roeddynt yn gwneud hyn er cof am bartner eu mab fuodd farw flwyddyn yn ôl wedi cyfnod hir o frwydro gyda canser. Gan fod y digwyddiadau hyn wedi eu canslo o achos pandemig Covid-19 penderfynodd David a'i wraig wario penwythnos yn cerdded o'u cartref ym Mhenybont ar hyd Afordir Treftadaeth Cymru am 24km/15 milltir, sy'n hirach na hanner marathon. Balch clywed am eu cyflawniad yn enwedig gan fod David ei hunan wedi goresgyn canser yn ddiweddar. Mae cyfle i gyfrannu at eu cronfa codi arian trwy https://www.justgiving.com/fundraising/David-M-W-Perry1

Ail Agor
Braf gweld bod rhai busnesau lleol wedi ail-agor ac addasu. Agorodd y Miskin Arms ar gyfer prydiau i'w cludo adref yn ystod y mis.

Cipio Cwis
Llongyfarchiadau i dri theulu o Lantrisant ar gael cydradd gyntaf yng nghwis wythnosol Tabernacl Efail Isaf ar Zoom. Cafodd Eluned Scott o Feisgyn, Teulu Roberts Cross Inn a theulu Ceri Anwen, gynt o Portreeve Close, yr un sgor a chipio'r cwis. A'r wobor fawr, wrth gwrs, gorfod gosod cwestiynau y cwis nesaf. Ewch i Facebook y Tabernacl os hoffech ymuno.

Dychwelyd i'r Ysgol
Pob dymuniad da i blant ysgolion Llantrisant fydd yn dychwelyd i'r ysgol am gyfnod ddiwedd y mis.

Pandemig: 1918 a 2020

Mae PANDEMIG: 1918 a 2020 yn rhaglen ddogfen gan gwmnii teledu Hall of Mirrors ar gyfer S4C. Bydd Dr Llinos Roberts - cafodd ei magu ym Mhentyrch ac nawr yn meddyg teulu yng Nghwm Gwendraeth – yn ystyried yr effaith a gafodd Ffliw Sbaen 1918 ar Gymru ac yn gofyn: gan mlynedd yn ddiweddarach, sut y gall gwersi o'r gorffennol ein helpu i wynebu pandemig COVID-19? S4C Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2020, 9 y.h.

Merched y Wawr Tonysguboriau
Llongyfarchiadau i Sian Sexton ar gael ei dewis i gyfrannu i raglen Eisteddfod AmGen. Os ydych yn dilyn rhaglen wythnosol yr eisteddfod fyddwch wedi gweld fod Sian yn cyflwyno sessiwn addas i ddysgwyr 'Her AmGen yr Wythnos - Dewch i'r ardd' ar yr 2ail o Orffennaf. Balch gweld fod Sian yn cael cyfle i ddefnyddio ei Chymraeg a rhannu ei 'tips' ar gyfer un o'i hoff ddiddordebau. Fel y gwyddoch mae Sian eisioes wedi ennill cystadleuaeth y dysgwyr Merched Y Wawr. Gan nad yw'r Ŵyl yn cael ei chynnal eleni mae trefniadau wedi'u gwneud i gael Gŵyl Lenyddol Rhithiol ar y 10fed o Orffennaf pryd fydd holl ganlyniadau'r cystadleuthau yn cael eu cyhoeddi, rhywbeth arall i roi ar eich calendar.

Crochendy Nantgarw

Mae Crochendy ac Amgueddfa Nantgarw yn gobeithio ail-agor rhannau o'r safle a chynnal gweithdai cyn diwedd mis Gorffennaf. Yn y cyfamser mae'r gwirfoddolwyr wedi bod yn trefnu ffyrdd o gadw pellter rhwng ymwelwyr ac ail-beintio ystafelloedd.

Mae'r Crochendy yn ddibynnol ar incwm a ddaw o weithgaredd y safle ac mae'r cyfnod diweddar wedi cael effaith difrifol ar y coffrau. Gellir cefnogi gwaith y Crochendy drwy ymaelodi â Ffrindiau Nantgarw

Mae bod yn Ffrind yn helpu cefnogi'r Amgueddfa yn ariannol ac ar yr un pryd yn rhoi nifer o fuddiannau. Byddwch chi hefyd yn rhan o brosiect cyffrous Nantgarw er mwyn diogelu dyfodol y Crochendy.

Y ffi aelodaeth yw £15 y person.

http://nantgarwchinaworksmuseum.co.uk/cy/

Tarian Cymru

Cefnogwch yr ymgyrch codi arian i roi offer gwarchodol i weithwyr iechyd a gofal yng Nghymru

https://www.gofundme.com/f/tariancymru

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Diolch i weithwyr allweddol Cardiff Road . . .
. . . Phillipa a Jim Stewart.
Phillipa yn ddoctor yn ysbyty Athrofaol Caerdydd a Jim yn anesthetegydd yn yr un ysbyty
. . . Tony ac Alex Crane.
Tony yn feddyg teulu ym Mhenybont
Alex yn rhedeg cartref hen bobl ym Mhorthcawl
. . . Jenny Thomas.
Ymgynghorydd yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd
Diolch yn fawr iddynt!

Llongyfarchiadau mawr i'r . . .
. . . meddyg, Geraint Herbert ar gael ei benodi'n Gofrestrydd Arbenigol mewn Llawfeddygaeth Gyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Pob lwc wrth i ti gychwyn ar dy waith ym mis Awst. Tipyn yn nes adre! Tybed pwy sy'n cofio'r Geraint ifanc yn ymarfer ei grefft gyda Mr Jones, cigydd Pentyrch 'slawer dydd?

Siop Newydd Sbon Driftwood yng Nghaerdydd!

Dechreuwyd y busnes 'Driftwood Designs' yn 2005 gan yr artist Lizzie Spikes.

Yn byw wrth arfordir canolbarth Cymru ger Aberystwyth, treuliodd amser yn cerdded ar hyd y traethau yn casglu broc môr i'w beintio a chreu darnau o gelf.

Wrth i'r busnes dyfu, yn 2012 ymunodd Becky, ei ffrind ers plentydod, gyda'i ymenydd trefnus a'i chariad at ambell 'spreadsheet'!!! Roeddent yn brysur yn peintio, pacio a phostio ar fwrdd y gegin cyn adeiladu sied ar waelod yr ardd i gael mwy o le.

Buan iawn sylweddolon nad oedd y sied yn ddigonol ac agorwyd eu siop gyntaf yn Aberystwyth - mis Medi, 2017.

Ac nawr, am yr antur nesaf! Cynlluniwyd agor siop newydd yn Castle Arcade yng Nghaerdydd ar 24ain o Fawrth 2020!

Wrth gwrs, dan yr amgylchiadau, oedi oedd rhaid gan gadw pawb yn saff dros y cyfnod annisgwyl yma. Dan ganllawiau Llywodraeth Cymru, rydym nawr wedi rhoi popeth yn ei le yn 'Siop Fach Caerdydd' yn barod i gario ymlaen, ac mae aelod newydd Driftwood Designs, Eleri Wyn, yn edrych ymlaen i'ch croesawu.

Barddoniaeth mae Iestyn Gwyn Jones wedi ysgrifennu fel cofnod o'r cyfnod yma

COVID-19

Rhaid cadw tafliad carreg rhyngom
Colli 'nabod ar gyfoedion,
A symud dim o'n sedd;
Y bedd sy'n pydru'r meddwl
Ac awydd sy'n pylu i'r awyr glir;
Arhoswn ninnau'n un am alwad
Gan adael lle i gael iachâd.

Yn llais llechwraidd llywydd
mae cul gyfarwyddyd anwadál;
Rhaid cymryd gofal
Wrth ymweld â safle rhwng rhyngweithiau technoleg
A chynnal sŵn rhedeg i gymell chwarae,
Nid eistedd yn llwm mewn noethni lladrad
Ond gweld gobaith mewn llais cyfryngol galar.

Da yw'r ofn
Nid canu celwydd sy'n tewi deall plentyn tawel,
Ond crybwyll Gofid-19 o weithiau
Nid oes twyll na brâd ar stryd amddifad,
Na phobl, ceir na mwg sigâr
Ond mae olion yr anwybod, gwacter hallt
a briwsion ofn yn cwrcydu yn y cysgod.
Fe ddaw diwedd
Mae chwerwedd yn sur ar lawr ystâd
Cer oddi yma'r bastard!

'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'

Ewyllysiau Cymraeg gan

Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas

Ysgrifenwyr Ewyllysiau)

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ôl hen arfer dyma'r cyfnod yn y flwyddyn pan fydd swyddogion y gymdeithas yn trafod rhaglen y flwyddyn nesaf. A felly y bu yn ddiweddar, ond gyda newid, sef, fel sy'n gyffredin erbyn hyn, trwy gyfarfod ZOOM. Mae'n dipyn o her i ni feddwl ymlaen oherwydd byddwn yn cyfarfod yn adeiladau'r Brifysgol; hyd yma nid yw'n glir sut y bydd pethau ar y Brifysgol o fis Hydref ymlaen. Felly ein penderfyniad ar y foment yw chwilio posibiliadau ZOOM ar gyfer rhai o'n cyfarfodydd ninnau.

Da gweld bod fersiwn Saesneg llyfr Dr Rowland Wynne, aelod o'n cymdeithas, ar Evan James Williams wedi ymddangos. Heb os, roedd Williams yn athrylith cydnabyddedig yn ei ddydd (1903-1945) a'i enw da yn parhau. Teitl y gyfrol newydd yw Evan James Williams – Atomic Physicist. Mae ar gael mewn siopau llyfrau am £16.99. Llongyfarchiadau (eto) i Rowland.

Ar y 15fed o Orffennaf gwelir cyhoeddi llyfr nodedig arall o law Dr Gareth Ffowc Roberts, sef, Cyfri'n Cewri – Hanes Mawrion ein Mathemateg. Daw'r gyfrol o Wasg Prifysgol Cymru a'i phris yw £11.99. Bydd pawb sy'n gwybod am gynnyrch hynod ddifyr yr awdur yn disgwyl am y wledd sydd i ddod a gallwn sicrhau eraill y cânt brofiad a hanner o'r newydd.

Mae rhifyn Gwanwyn 2020 o Advances Wales (Llywodraeth Cymru) wedi ymddangos. Fel arfer mae'n lliwgar, dwyieithog a difyr, yn rhoi crynodeb o wyddoniaeth yng Nghymru. Y tro hwn, ceir gwybodaeth am ddatblygiadau fel a ganlyn: Meddygaeth (haint y llwybr wrinol); Amgylchedd (technoleg arloesoli at drin dŵr); Gwyddorau Daear (gwella cywirdeb rhagolygon y tywydd byd-eang); Amaethyddiaeth (gwella effeithlonrwydd silwair); Technoleg Gwybodaeth (System newydd i ddatgelu ymosodiadau seibr); Peirianneg a Deunyddiau (addasu pren i wella gwytnwch a chynaliadwyedd).

Cyfri'n Cewri Hanes Mawrion ein Mathemateg

Dyma'r llyfr perffaith i ddisgyblion ysgol a phawb sydd eisiau dysgu am waith mathemategwyr nodedig Cymru, a fydd yn ei dro yn ysbrydoli cenhedlaeth newydd o fathemategwyr.

Yn ei lyfr arloesol Mathemategwyr Cymru (Caerdydd, 1994) manylodd Llewelyn Gwyn Chambers (1924-2014) ar hanes 70 a mwy o fathemategwyr Cymru. Mewn llyfr newydd, Cyfri'n Cewri, a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru ar 15 Gorffennaf mae Gareth Ffowc Roberts, Athro Emeritws ym Mhrifysgol Bangor, yn adeiladu ymhellach ar waith Chambers wrth gyflwyno bywyd a gwaith dwsin o fathemategwyr blaenllaw, rhai ohonynt a aned yng Nghymru, ac eraill a gyflawnodd eu gwaith yng Nghymru.

Yn dilyn poblogrwydd ei gyfrol Mae Pawb yn Cyfrif (Llandysul, 2012), mae'r awdur yn defnyddio'r un arddull wrth greu llyfr a fydd yn apelio at gynulleidfa eang: rhai sy'n astudio mathemateg mewn ysgol neu goleg a phawb sydd eisiau dysgu am waith mathemategwyr nodedig Cymru. Prif neges y llyfr yw bod mathemateg yn rhan annatod o'n hanes a'n diwylliant. Mae'n arbennig o berthnasol wrth i Gwricwlwm Cymru ddechrau magu momentwm, gyda'i bwyslais ar themâu traws-gwricwlaidd."

'Petawn i wedi cael Gareth Ffowc Roberts yn athro, rwy'n grediniol y byddai fy myd-olwg yn wahanol. Mae ganddo'r ddawn brin o egluro "rhyfeddod y cread" mewn dull hynaws ac agos atoch. Gwnaeth i fathemateg Cymru yr hyn a wnaeth Peter Lord i gelf Cymru – cryfhau ein ymwybyddiaeth o gewri ein gwlad, ac ymfalchïo ynddynt.'

- Angharad Tomos, awdures

'Gwych oedd cael f'atgoffa gan y gyfrol ryfeddol yma fod mathemateg yn perthyn i ni gyd ac yn rhan o'n hanes cenedlaethol. A gwych hefyd ydi gweld yr awdur ar ei orau yn gwneud mathemateg yn berthnasol, hygyrch a hynod ddiddorol hyd yn oed i glown fel fi.'

- Tudur Owen, comedïwr a darlledwr

'Fe ddylai hwn fod ar silff lyfrau unrhyw un sydd â diddordeb yn hanes Cymru, oherwydd mae gorchestion ein mathemategwyr yn rhan mor bwysig o'r hanes hwnnw, ac yn allweddol i'n dealltwriaeth o'n byd ni heddiw.'

- Dr Elin Jones, hanesydd ac addysgwr



'Cyfrol ddifyr sy'n amlygu cyfraniad anhygoel rhai o'r Cymry i ddatblygiad mathemateg, ac effaith y cyfraniadau hynny ar ein bywydau bob dydd. Dyma gyfrol bwysig sy'n rhoi'r sylw teilwng i rai o'n mathemategwyr mwyaf nodedig, pobl a ddylai gael yr un sylw a rhai o'n llenorion a'n cantorion enwocaf.'

- Dr Tudur Davies, Adran Fathemateg , Prifysgol Aberystwyth

'Casgliad cyfoethog o hanesion mawrion mathemateg ein cenedl. Campwaith arall gan yr awdur – mae'r straeon yn eich tynnu i mewn i ddysgu rhywbeth newydd am bob un o'r deuddeg arwr o fewn y cloriau. Paid â bod ofn ei ddarllen!'

- Dr Gareth Evans, Pennaeth Mathemateg, Ysgol y Creuddyn

'Clamp o gyfrol ddifyr sy'n goglais ein diddordeb mewn pobl a byd prydferth mathemateg fel ei gilydd. Dyma stori'r Cymry a mathemateg, ac ry'n ni i gyd yn rhan o'r hafaliad. Wele ryfeddod y rhifau a'u rhin.'

- Elinor Wyn Reynolds

Cyfri'n Cewri: Hanes Mawrion ein Mathemateg – Gareth Ffowc Roberts – PB – 9781786835949 - £11.99

Dyddiad cyhoeddi: 15 Gorffennaf 2020
Pris: £11.99
Ar gael trwy siopau lleol
Rhagor o fanylion ar wefannau Gwasg Prifysgol Cymru a Gwales:
https://www.gwasgprifysgolcymru.org/book/cyfrin-cewri/
http://www.gwales.com/

Curo'r Corona'n Coginio

Eluned Davies-Scott

Y Tomato Amryddawn

Mae dros 7500 wahanol fathau o domatos ac maent yn gallu bod yn goch, melyn, gwyrdd neu borffor. Maent yn perthyn i'r un teulu (codwarth/ nightshade) a phupurau, tatws a wylys ac mae gwyddonwyr wedi darganfod 13 cyfansoddion ehedol (volatile) yn creu blas. Beth fyddem yn gwneud heb y ffrwyth hyfryd hwn?

Roedd cael digon o domatos mewn tuniau, fel past, wedi eu sychu yn yr haul ac fel passata yn flaenoriaeth i mi wrth stocio'r cwpwrdd ym mis Mawrth. Er nad wyf yn cofio fy mam yn eu defnyddio heblaw yn ffres mewn salad, anaml iawn mae'r wythnos yn mynd heibio heb i mi eu hychwanegu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i'r bwydydd dwi'n paratoi.

Daw'r gair Saesneg 'tomato' o'r gair Aztec, 'tomati' sy'n adlewyrchu eu tarddiad. Maent yn dod o'r Andes yn Ne America, lle roedden nhw'n tyfu'n wyllt yn yr hyn sydd bellach ym Mheriw, Chile, Bolivia ac Ecuador. Fe'u triniwyd gyntaf gan yr Aztecs ac Incas mor gynnar â 700 OC.

Cyrhaeddodd tomatos Ewrop gyntaf yn yr 16eg Ganrif, er nad yw'r ffordd y cyrhaeddon nhw ddim yn eglur. Dywed rhai iddynt gael eu dwyn yn ôl o Ganol America gan Goncwerwyr Sbaen, tra bod chwedl arall yn awgrymu bod dau offeiriad Jesuit wedi dod â nhw nôl i'r Eidal o Fecsico. Yn ôl haneswyr fe gyrhaeddon nhw Sbaen yn gyntaf, lle cawson nhw eu trin fel wylys coch - h.y. wedi'u coginio â halen, pupur ac olew, fel y maent hyd heddiw. Yna fe gyrhaeddon nhw'r Eidal ac er ein bod yn cysylltu tomatos gyda'r Eidal cymerodd degawdau lawer i'r Eidalwyr godi'r dewrder i'w bwyta. Oherwydd eu bod yn tyfu'n agos at y ddaear, fe'u hystyriwyd yn isel eu gwerth ar gyfer coginio a'u bwyta.

Roedd y tomatos gafodd eu meithrin gyntaf yn felyn a maint ceirios, gan ennill yr enw afalau euraidd iddynt: pommes d'or - yn Ffrangeg, pomi d'oro yn Eidaleg ac goldapfel yn Almaeneg.

Fe'u tyfwyd yn wreiddiol ym Mhrydain a gweddill Ewrop mewn gwlâu blodau ac ar gyfer addurniadau bwrdd, nid i'w bwyta. Yn ogystal â'u defnydd addurnol, defnyddiwyd tomatos fel 'arf'. Yn draddodiadol, roedd tomatos wedi pydru yn cael eu taflu at bobl yn y stociau a hyd heddiw, mae tref Buñol yn Sbaen yn cael brwydr tomato torfol bob blwyddyn.

Yr enw Lladin am y tomato wedi'i meithrin yw Lycopersicon, neu 'blaidd eirin gwlanog' sy'n adlewyrchiad o'r gred yn y gorffennol fod y tomato yn wenwynig. Llysenw arall roddwyd iddynt oedd "afal gwenwyn" oherwydd credwyd bod pendefigion yn mynd yn sâl ac yn marw ar ôl eu bwyta, ond gwir y mater oedd bod Ewropeaid cyfoethog yn defnyddio platiau piwter, a oedd yn cynnwys llawer o blwm. Oherwydd bod tomatos mor uchel o asidedd, wrth eu rhoi ar y llestri bwrdd penodol hyn, byddai'r ffrwythau'n trwytholchi plwm o'r plât, gan arwain at farwolaethau o wenwyno plwm. Ni wnaeth unrhyw un y cysylltiad hwn rhwng plât a gwenwyn ar y pryd ac fe ddewiswyd y tomato fel y troseddwr. Serch hynny, mae dail y planhigyn yn wenwynig.

Fodd bynnag roedd y Ffrancwyr yn argyhoeddedig bod gan domatos briodweddau affrodisaidd a'u galw'n pommes d'amour neu'n afalau caru, sydd hefyd yn gyfieithiad Cymraeg ar gyfer y ffrwyth.

Ym Mhrydain dechreuwyd tyfu tomato yn fasnachol yn y 19eg Ganrif ac fe adeiladwyd y tai gwydr cyntaf yng Nghaint ac Essex. Wyddoch chi fod yr enwog Medwyn Williams wedi arddangos y domato Cymraeg cyntaf erioed yn Sioe Flodau Chelsea yn 2019? Ei fwriad oedd creu tomato newydd i'w arddangos mewn sioeau, ond sydd hefyd yn flasus ac yn dathlu llwyddiant tîm pêl-droed Cymru ym mhencampwriaeth Euro 2016. Mae'r tomato wedi cael ei gofrestru fel 'Y Ddraig Goch' a cyn belled ag y mae Mr Williams yn ei wybod, Y Ddraig Goch ydy'r enw Cymraeg cyntaf i gael ei gofrestru ar gyfer unrhyw ffrwyth neu lysieuyn.

Does dim gwell na thomato o'r ardd neu'r tŷ gwydr a chredaf fod tomatos dwi wedi blasu dramor yn llawer mwy blasus na'r rhai o'r archfarchnad. Pam nad yw tomatos yn blasu fel yr arferent? Honna gwyddonwyr sydd wedi bod yn ymchwilio i hyn eu bod nhw a'r ateb; mae'r 'cyfansoddion ehedol' yn absennol o amrywiaethau modern yn awgrymu bod blas wedi'i aberthu yn anfwriadol wrth i'r diwydiant geisio cynyddu cynnyrch a gwrthsefyll plâu a chlefydau.

Mae cadw tomatos yn yr oergell yn treiglo eu blas felly, oni bai eu bod yn aeddfed iawn, dylid eu storio ar dymheredd yr ystafell. Os na fyddwch chi'n bwyta tomatos aeddfed am gwpl o ddiwrnodau, rhowch nhw yn yr oergell mewn bag tyllog, ond tynnwch nhw allan o'r oergell am tua 30 munud cyn bwyta, fel y gallant gynhesu. Os na ddefnyddiwch dun o domatos i gyd ar yr un pryd, trosglwyddwch y gweddill i gynhwysydd nad yw'n fetel, aerglos a'i storio yn yr oergell - bydd yn para am oddeutu dau ddiwrnod neu gallwch eu rhewi.

O ran maeth maent yn cynnwys fitaminau beta-caroten (sy'n dod yn fitamin A wrth ei fwyta), fitaminau C ac E, rhai fitaminau B a fitamin K a hefyd yn cyfrannu rhai mwynau gan gynnwys calsiwm a magnesiwm. Mae ymchwil yn awgrymu y gall prosesu a choginio tomatos gynyddu eu gwerth maethol, yn benodol, eu gweithgaredd gwrthocsidiol a'u cyfansoddion lycopen.

Felly mwynhewch eu tyfu a'u bwyta a'u defnyddio yn eich rysetiau coginio unrhyw amser o'r flwyddyn. Mae tomatos Roma neu ryw fath o domatos cigog yn dda ar gyfer sawsiau a choginio a thomatos ceirios ac heirloom fel arfer â blas rhagorol wrth eu bwyta'n amrwd. Un tip rydw i wedi'i ddysgu am goginio gyda thomatos tun neu ffres yw ychwanegu ychydig o siwgr atynt i wella eu blas. Mae tomatos yn mynd yn dda gyda bron unrhyw beth! Wrth gwrs, maen nhw'n arbennig gyda blasau Eidalaidd fel oregano, finegr balsamig, caprau, olew olewydd, garlleg a chaws mozzarella ffres. Neu flasau wedi'u hysbrydoli gan Fôr y Canoldir fel olewydd, caws feta, a chiwcymbrau. Gellir eu mwynhau hefyd gyda chaws Parmesan, basil, cig moch, reis, madarch, pasta, nionyn, afocado, bara crystiog, gwygbys, wyau, ffenigl, persli, pupur du a saws Swydd Gaerwrangon.

Dyma ychydig o bartneriaeth anarferol y gallech chi eu rhoi ar brawf arnynt - ffrwythau fel bricyll, lychee, neithdarinau ac eirin gwlanog, neu aeron fel mafon a mefus. Os hoffech chi roi cynnig ar baru perlysiau anarferol, mae balm lemwn yn ddewis da.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Roedd y Gemau Olympaidd i fod i gael eu cynnal yn Nhokyo eleni, ond oherwydd yr aflwydd fe'i gohiriwyd tan y flwyddyn nesaf. Yr un, wrth gwrs, fu ffawd cystadleuaeth pêl-droed gwledydd Ewrop, a thîm pêl-droed Cymru yn awchu i gymryd rhan yn eu hail gystadleuaeth yn olynol.

Yn 1964 y bu Gemau Olympaidd yr haf yn Nhokyo ddiwethaf, ac mae'n siŵr na fedrwn grebwyll y rheini heb i ni feddwl am lanc ifanc 22ain oed o Nantymoel, ger Pen-y-bont ar Ogwr, yn cipio medal aur wrth ennill y gystadleuaeth naid hir yno. Do fe neidiodd "Lynn the Leap" bellter o 8.07 metr (26 troedfedd 5¾ modfedd), ac os ewch i Nantymoel cewch weld yn union pa mor bell ydi hynny gan fod na farciau ar y palmant yn dynodi'r gamp.

Bydd y rhai brwd ohonoch yn cofio mai Ralph Boston (UDA) oedd yr ail yn y gystadleuaeth, ac Igor Ter-Ovanesyan (yr Undeb Sofietaidd bryd hynny) oedd yn drydydd yn yr un gystadleuaeth.

Toeddwn i ddim yn cofio, serch hynny, bod Lynn Davies wedi cystadlu mewn dwy gystadleuaeth arall yn yr un gemau – y 100 metr, a'r ras gyfnewid 4 x 100m.

Yn y gyntaf ni lwyddodd i fynd tu hwnt i'r rownd agoriadol er iddo redeg y pellter mewn 10.7 eiliad, ac yn yr ail, er i dîm Prydain gyrraedd y rownd derfynol, darfod yn yr 8fed safle a wnaethant. Tîm Prydain yn y "Ffeinal" oedd Peter Radford, Menzies Campbell (cyn arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, a bellach yn cael ei adnabod fel y Barwn Campbell o Bittenweem), Lynn Davies, a Chymro arall o Aberdâr, Ron Jones.

Yn Ninas Mecsico y cynhaliwyd Gemau Olympaidd 1968 (yr XIX Olympiad), y tro cyntaf erioed iddynt eu cynnal yn un o wledydd America-Ladin, a Sbaeneg ei hiaith. Roedd 112 o wledydd yn cael eu cynrychioli gan 5516 o athletwyr (sylwer - 4,735 o ddynion a 781 o ferched). Yma y gwelwyd yr athletwyr cyntaf yn cystadlu ar drac llyfn yn hytrach na'r trac sindr blaenorol, ac yma hefyd y cafwyd y defnydd cyflawn cyntaf o'r dull electronig o amseru mewn cystadlaethau.

Beth tybed ydi'ch atgofion chi o'r gemau yma - George Forman yn ennill y gystadleuaeth bocsio pwysau trwm yn yr ail rownd; Bob Beamon yn chwalu record y byd yng nghystadleuaeth y naid hir gan neidio 8.90 metr (29 troedfedd a 2.39 modfedd), record a brofodd tu hwnt i bawb am gyfnod o 23mlynedd i ddilyn; Dick Fosbury yn ennill y naid uchel gyda'i ddull unigryw, y "Fosbury Flop", sydd bellach wedi ei mabwysiadu gan bron pob cystadleuydd yn y gamp ers hynny?

John Carlos, Tommie Smith, Peter Norman yn 1968
Llun: Angelo Cozzi (Mondadori Publishers) / Parth Cyhoeddus

Ynteu ydi seremoni gwobrwyo'r gystadleuaeth rhedeg 200 metr i ddynion, ar yr 16 o Hydref, yn dal yn eich cof?

Tommie Smith enillodd y fedal aur, John Carlos yr efydd, y ddau o'r Unol Daleithiau, a rhyngddynt i gipio'r fedal arian daeth Awstraliad o'r enw Peter Norman.

Gwell ychwanegu mae athletwyr croenddu oedd y ddau Americanwr, ac yn y seremoni, yn sŵn y "*Star- Spangled Banner",* anthem genedlaethol yr Unol Daleithiau, gwelwyd y ddau ohonynt yn plygu pen, ac yn codi eu breichiau i'r awyr, braich dde un a braich chwith y llall , un faneg ddu yr un am eu dwylo *, sanau du yn hytrach nag esgidiau am eu traed, yn arwydd o gefnogaeth i gydraddoldeb a hawliau sifil i'w brodyr a'u chwiorydd yn eu mamwlad. Gwisgai'r Awstraliad fathodyn "hawliau dynol" yn arwydd o gefnogaeth iddynt.

[* Mae'n debyg mai un par o fenig du oedd ganddynt ar gyfer y seremoni, gan i John Carlos anghofio ei bar o ar ôl yn y pentref athletau. Peter Norman a awgrymodd y dylent rannu'r par rhyngddynt ac felly y bu iddynt godi'r breichiau gwahanol i'r awyr!

Arwyddocâd bod heb esgidiau oedd i gofio am dlodi'r du eu crwyn; agorodd John Carlos zip ei dracwisg, yn arwydd o unioni gyda'r gweithwyr coler las, a gwelid o gylch ei wddf dorch o gleiniau i gofio am yr unigolion rheini a fu farw yn gaethweision heb i neb offrymu gair o weddi er cof amdanynt; gwelid bod gan Tommie Smith sgarff du o gwmpas ei wddf yn arwydd o falchder yn ei dras.]

Cyflwynydd y medalau oedd David Cecil, 6th Marcwis Caerwysg, a enillodd fedal aur yn y ras 400 metr dros y clwydi yn y Gemau Olympaidd yn Amsterdam yn 1928, ac a fu, yn ôl yr hanes, yn ysbrydoliaeth i gynnwys y rhan am redeg o gwmpas Clos Mawr Coleg y Drindod, Caergrawnt, cyn i'r cloc daro 12 o'r gloch y nos, yn y ffilm "*Chariots of Fire*".

Am eu hyfdra, gwaharddwyd y ddau Americanwr o'r Gemau Olympaidd am oes gan y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (yr "IOC"), ac, fe honnir, gwaharddwyd Peter Norman o dîm Awstralia ar gyfer Gemau Olympaidd 1972.

['Roedd y ddau Americanwr yn aelodau o "*Olympic Project for Human Rights*", mudiad a sefydlwyd yn Hydref 1967 i brotestio yn erbyn arwahanrwydd hiliol yn yr Unol Daleithiau a mannau eraill, a hiliaeth yn gyffredinol mewn unrhyw chwaraeon.

'Roeddent, ymysg gofynion eraill, wedi argymell boicot o Gemau Olympaidd 1968 os oedd De Affrig a Rhodesia yn cael cymryd rhan, a hefyd yn mynnu adfer teitl bocsio trwm y byd i Muhammad Ali (teitl a gipiwyd oddi arno am wrthod listio ym myddin America yn ystod Rhyfel Fietnam).]

Yn 2005 ym Mhrifysgol Talaith San Jose, fe ddadorchuddiwyd cofeb i gofio'r safiad a wnaethpwyd gan yr athletwyr yma yn 1968 – cofeb 22 troedfedd o daldra dan yr enw "*Victory Salute*".

Ond dim ond delwau'r ddau Americanwr a bortreadir ar y gofeb – tydi Peter Norman ddim yn bresennol.

Yn y canol yn safle'r enillydd, gwelir cerflun o Tommie Smith, y tu cefn iddo yn safle'r fedal efydd, gwelir John Carlos, ond mae safle enillydd y fedal arian yn wag.

Dyna safle Peter Norman yn y seremoni wreiddiol yn Ninas Mecsico, ond ei ddyhead ef oedd peidio cael ei gynrychioli yn y cerflun, ond yn hytrach adael y safle'n wag fel bod gwahoddiad i bawb a ddeuai i weld y cerflun hefyd, trwy sefyll yn y fan y safodd yntau yn 1968, yn cael y cyfle i uniaethu gyda'r ymdrech am gyfiawnder a chydraddoldeb hil.

"*Take a stand*" yw'r gwahoddiad hwnnw a welir ar blac ar y cerflun.

Parhaodd cyfeillgarwch rhwng y tri athletwr hyd at farwolaeth Peter Norman yn 2006. Roedd Tommie Smith a John Carlos ymysg cludwyr ei arch yn ei angladd.

Yn 2012, o'r diwedd, cydnabu Llywodraeth Awstralia bod ymddygiad Peter Norman yn 1968 wedi bod yn fodd o "*ymestyn ymwybyddiaeth o hiliaeth yn rhyngwladol*"!

Heddiw, a "cherfluniau" a "black lives matter" (tydi'r Gymraeg ddim mor slic â'r Saesneg yn ol fu nhyb i - "*Mae Bywydau Du yn Bwysig" / "Mae Bywydau Du o Bwys")* yn llenwi'n newyddion o bedwar ban byd rhaid gofyn - tybed a ydym wedi dysgu unrhyw beth ers 1968? "Sgersli bilîf" fyddai ebwch Ifans y Tryc mi fentraf!

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Llongyfarchiadau
Buodd Dave Francis, Parc Prospect yn dathlu pen-blwydd arbennig ddechre Mehefin. Cyfarchion o bell gafodd Dave gan Rhodri, ei fab hyna, gan ei fod dal mas yn Thailand gyda'i wraig Noi a'i ferch Yanisha. Maent yno ers misoedd erbyn hyn ar ôl i'r gwylie yn ymweld â theulu Noi gael eu ymestyn o achos y sefyllfa bresennol. Mae Yanisha, sy'n 9 oed, wedi bod yn brysur yn dysgu sut i goginio prydiau traddodiadol y wlad a Rhodri yn ysgrifennu pytiau a gwneud fideos ar Facebook o'i brofiadau. Maent yn werth eu gwylio!

Y Sgrin Fach
Yn dilyn agoriad Parc Ynysangharad fe ddaeth camerâu 'Heno' yno. Bu Yvonne Evans yn cyfweld â mynychwyr selog y parc Siân Ebbsworth a Menna Lewis. Yn ogystal a thair cenhedlaeth y teulu Griffiths - Eleri a'i merched Alaw, Elan

a Cadi a'i hwyr bach Arthur. Roedd y Cyng. Geraint Hopkins yn brolio gweithwyr y parc am yr adferiad gwyrthiol ar ôl llifogydd mis Chwefror.

Croeso
Ganed Mali Bowen i Cai Hywel a'i wraig Angharad, Trehopcyn ddechre Mehefin. Chwaer fach i Osian. Pob dymuniad da!

Colled
Estynnwn ein cydymdeimlad â Guto Davies a'r teulu, Graigwen. Buodd brawd Guto, y bardd a'r dramodydd, Siôn Eirian, Caerdydd farw ar ôl salwch byr ym mis Mehefin.

Agoriad gwahanol
Erbyn hyn mae Llyfrgell newydd y dre wedi agor yn Llys Cadwyn. Braf yw nodi bod yr arddangosfa o lyfrau plant yn y ffenest yn cynnwys nifer o lyfrau Cymraeg!

Ar hyn o bryd gwasanaeth 'Archebu a chasglu' yn unig sydd ar gael. Yr oriau agor yw 9.00 i 5.00 o Ddydd Llun tan Gwener a 9 tan 1 ar Ddydd Sadwrn Cysylltwch â'r Llyfrgell am fwy o wybodaeth 01443 562211.

Merched y Wawr
Braf oedd ymuno ag aelodau eraill o'r De Ddwyrain i wrando ar gyngerdd yn fyw ar Zoom gan y gantores Siân James o'i chartre yn y canolbarth.

Cofio
Thema rhaglen radio John Hardy ychydig wythnosau nol oedd 'Pontydd' . O'r archif fe glywsom ni gyfweliad â Dilys Protheroe yn siarad am Bontypridd. Buodd Gwenllïan Jenkins yn lwcus i wneud cyfweliad â hi nifer o flynyddoedd yn ôl. Dyma ei hatgofion.

Roedd Dilys Protheroe yn weithgar ymysg "Y Pethe" ym Mhontypridd trwy gydol ei hoes - yr Urdd, Capel, a'r Gymdeithas Gymraeg. Ganwyd hi yn 1909 ym Mhontypridd. Bu farw ei thad pan oedd hi yn saith mlwydd oed gan adael ei mam â saith o blant bach i'w magu ar ei phen ei hun. Aeth Dilys i Ysgol Gynradd Coed-y-lan ble roedd hi'n derbyn un wers o Gymraeg yr wythnos. Roedd yr aelwyd yn uniaith Gymraeg a hefyd roedd nifer o weithgareddau Cymraeg o gwmpas. Roedd hi'n cofio capeli Seion, Soar a Sardis dan eu sang a dramâu'r Parch. R G Berry, Gwaelod y Garth. Yn un ar ddeg oed fe enillodd Dilys ysgoloriaeth i Ysgol Howells yng Nghaerdydd. Roedd un o reolwyr yr Ysgol yn gefnogol i'r iaith a threfnwyd gwersi Cymraeg ar fore Sadwrn i'r merched, ac roedd côr yr ysgol yn canu caneuon gwerin Cymraeg.

Aeth Dilys ymlaen i Goleg Prifysgol Cymru, Caerdydd i astudio Cymraeg, Ffrangeg, Saesneg a Lladin. Graddiodd hi gydag anrhydedd yn y Gymraeg. Dysgodd yn Swydd Efrog am wyth mis, cyn dychwelyd i Gymru. Ar ôl dysgu ym Merthyr a Bargoed am ddeg mlynedd, symudodd i Ysgol Ramadeg y Merched, Pontypridd, a chyfrannodd yn helaeth i fywyd yr ysgol a 'r dre.

Golygfeydd Gwahanol
Gwelwyd nifer o olygfeydd o Bontypridd ar y teledu yn ddiweddar wrth i Syr Tom ddathlu ei benblwydd yn 80! Am newid i'r dref erbyn hyn! Mae'r hen Precinct wedi diflannu (diolch byth) a thri adeilad newydd sbon ar y safle. Llys Cadwyn yw lleoliad y llyfrgell newydd (armadillo arall yn Ne Cymru).

Parhad ar dudalen 11 >

Pontypridd
(Parhad)

Mae'r bont newydd bron yn barod. Mae Pont Droed Dyffryn Taf yn cysylltu safle ailddatblygu Dyffryn Taf a Pharc Ynysangharad. Mae'r bont tua 70 m o hyd a bydd ceblau yn ei dal yn ei lle a mast 25m o uchder.

Llys Cadwyn lleoliad llyfrgell newydd y dre

Dyma'r tri adeilad newydd ar safle yr hen Precinct. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn symud ei swyddfeydd yma.

Yn yr un ardal o'r dre mae adeilad y YMCA yn gragen wrth i'r datblygwyr ddechre ar y gweddnewidiad.

Ni fyddwch farw ond unwaith.....

Heb Ewyllys mae eich ystâd yn atebol i'r gyfraith. Mae'r Rheolau Marwolaeth Heb Ewyllys yn rhestru mewn trefn penodedig y perthnasau gwaed hynny a fydd yn etifeddu. Mae'r rhestr hon yn gymharol gyfyng ac os nad oes unrhyw un o'r perthnasau a benodir yn y rhestr wedi eich goroesi yna aiff eich holl eiddo i'r Goron.

Heb Ewyllys os ydych yn briod gyda phlant ac mae gwerth eich ystad yn fwy na £270,000 ni fydd eich gŵr neu wraig yn etifeddu popeth. Byddant yn etifeddu £270,000 a rhennir y gweddill yn gyfartal rhyngddyn nhw a'ch plant. Os yw gwerth eich cartref yn fwy na £270,000 nid yw hyn yn ddelfrydol ac fe all achosi trafferthion mawr.

Mae Ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi benodi gwarchodwyr ar gyfer plant ifanc. Heb benodiad fel hyn gallai fod anghytuno mawr ynglyn â phwy bydd yn gofalu amdanyn nhw ar eich marwolaeth.

Heb Ewyllys oni bai eich bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil gyda'ch partner, gawn nhw ddim byd. Cheiff llys blant nad ydych wedi'u mabwysiadu ddim byd chwaith os nad oes Ewyllys. Mae gwneud Ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi ddarparu ar gyfer teuluoedd estynedig.

Mae Ewyllys hefyd yn eich galluogi i nodi dymuniadau penodol ar gyfer eich angladd. A ydych am gael eich claddu neu i'ch corff gael ei losgi? Efallai bod gennych gyfarwyddiadau penodol ynglyn â ble y dymunwch gael eich claddu neu ble y dymunwch i'ch gweddillion gael eu gwasgaru.

Mae gwneud Ewyllys a gwybod eich bod wedi nodi eich dymuniadau yn dod â thawelwch meddwl ac yn sgil yr argyfwng presennol mae hi efallai yn bwysicach nag y bu hi erioed i wneud Ewyllys.

Ruth Ceri Jones LL.B.
Cyfreithwraig
Aelod o Gymdeithas
Ysgrifenwyr Ewyllysiau

Os hoffech drafod llunio Ewyllys yn y Gymraeg cysylltwch trwy e-bost ar **ruthcjones25@aol.com**

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 407570

www.menteriaith.cymru

Prosiect newydd - Straeon y sir

Mae'r Fenter wedi sicrhau cyllid gan y loteri Genedlaethol – Arian i Bawb, i redeg prosiect newydd sbon tra dan glo: Straeon y Sir - cynefin.

Hoffwn gasglu Straeon hen a newydd o'r Sir arbennig hon. Rydym am ddechrau trwy gasglu Straeon o'r gorffennol. Gofynnwn yn garedig i chi adrodd Straeon o bob cwr o'r Sir a'u rhannu gyda ni. Gall y straeon fod yn bersonol neu'n ran o'n llên gwerin. Yr unig ofyniad yw eu bod yn berthnasol i gynefin o fewn Rhondda Cynon Taf. Byddwn ni'n casglu'r Straeon, yn hyfforddi ein TIMau ieuenctid ac yn cyflogi aelodau proffesiynol o'n cymunedau i adrodd y straeon mewn amryw ffyrdd. Bydd rhain yn cael eu rhannu maes o law ac yn sbardun i greu stareon newydd. Mae Angharad Lee wedi cytuno i arwain y prosiect.

Er mwyn cynorthwyo a chefnogi'r prosiect hwn gofynnwn i chi rannu stori, gwybodaeth, gysylltiadau gyda ni.

Ffyrdd o rannu straeon:

1. ebostio stori@menteriaith.cymru ar bapur neu fel recordiad llais.
2. Gyrru We Transfer o ffeil mawr at stori@menteriaith.cymru
3. Recordio stori (llais yn unig) ar eich ffôn symudol a'i yrru atom dros Messenger https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf

Gweithgareddau

Mae'r Fenter yn parhau i ddarparu gweithgareddau ar lein yn ystod y cyfnod anodd yma a byddwn yn parhau i wneud hyn dros yr haf. Dyma'r amserlen bostio ar ein cyfryngau cymdeithasol:

https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf
https://www.facebook.com/MenterRhCT/
@MenterRhCT
Menteriaith.cymru

Gweithgareddau Cymraeg Gartref - https://www.facebook.com/groups/2472866432966678/

Gwasanaethau Plant

Fideos gweithgareddau ar youtube – Sianel Clwb Carco

Postiadau gweithgareddau dyddiol am 10yb.

Rydym yn trafod a chynllunio ail agor ein Clybiau Carco o bosib ym mis Medi. Bydd hyn yn ddibynol ar sefyllfa pob Ysgol yn unigol. Cysylltwch â ni ar carco@menteriaith.cymru i drafod ymhellach ac i archebu lle.

TIM (Timau Ieuenctid Menter)

Fideos newydd bob prynhawn Gwener – AMAM.cymru a youtube Sianel TIM.

Sesiwn Sul bob nos Sul ar GTFM.

Mae'n TIMau wedi bod yn brysur yn trafod materion maw rein dydd ac wedi penderfynu creu fideos codi ymwybyddiaeth o'r materion yma. Materion megis BLM (Mae Bywydau Du o bwys), hawliau cyfartal I'r gymuned LGBT, yr amgylchedd ac argyfyngau'r byd. Gwyliwch ar leisiau arbennig ein pobl ifanc wrth iddyn nhw ddangos y ffordd at gyfiawnder.

Cyffredinol

Sgyrsiau cymunedol: Ewch ar ein cyfryngau cymdeithasol bob nos Lun i wrando ar farn y cyhoedd am yr hyn hoffen nhw ei weld yn digwydd er mwyn normaleiddio'r Gymraeg. Mae croeso i chi ychwanegu eich barn a'ch sylwadau eich hun.

Tafarn y Clo

Ymunwch â'r dafarn bob nos Fercher am 8 i flasu arlwy gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Byddwn ni'n rhedeg y dafarn ar y 29ain o Orffennaf

Cystadleuaeth Bwgan Brain: Ymunwch â chystadleuaeth Genedlaethol creu Bwgan Brain ym mis Awst. Gweler y poster am fwy o fanylion

Gig Ras123: Gig i ddathlu diwedd y Ras rithiol ar Orffennaf y 9ed. Gweler y poster am fanylion llawn



AMSERLEN GWEITHGAREDDAU

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Dydd Llun	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Sgyrsiau cymunedol
Dydd Mawrth	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Dysgu BSL
Dydd Mercher	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Rhannu gwybodaeth
Dydd Iau	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Gweithgaredd Sianel Clwb Carco
	8.00yh	Rhannu gwybodaeth
Dydd Gwener	10.00yb	Her crefft
	3.00 yp	Sianel TIM (Tím Ieuenctid Menter)
Dydd Sadwrn	3.00yp	Rhannu gwybodaeth
Nos Sul	8.00 yh	GTFM Sesiwn Sul

Hanner Colli Iaith!

Ifan Roberts

Rydw i wedi bod yn meddwl yn ddwys am un neu ddau o effeithiau mae'r meudwyo wedi'i gael arna i'n bersonol. Fel hynafgwr, wnes i gydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau – dim symud cam o'r lle am dri mis, ac eithrio i fferyllfa'r pentre; dim gyrru'r car, ac eithrio ar y dreif i wefru'r batri; dibynnu ar gymwynasau'r genhedlaeth iau a faniau delifro am nwyddau. Bellach, rydwi wedi mentro i glicio a chasglu (unwaith) a'r dydd o'r blaen fe'm gwelwyd yn ciwio'n ufudd i aros fy nghyfle i (fynychu) Bi -a-Ciw! (mentrus!)

Ond Och! Rydw i newydd ganfod un effaith andwyol o'r ynysu! Dwi'n ofni mod i wedi colli rhagor o fy ngafael ar yr iaith fain! Ydw, wir, rydw i'n anghofio'r geiriau Saesneg am bob math o bethau, cyfarwydd ac anghyfarwydd.

Colli iaith a cholli urddas?
Colli siarad â chymdogas
Ta-ta coron aur cymdeithas
Sticia i at fratiaith fras.

Diffyg defnydd ydi o – siŵr o fod. Yma, ar y gorau, ym Mhentyrch, does 'na 'rioed fawr o alw am sgwrs faith mewn dim ond y Gymraeg – a pheth braf ydy hynny. Ond mater arall fu hi erioed pan oedd galw am drafod y tywydd efo rhai sy'n pasio neu brynu a gwerthu nwyddau yn y siopau.

Hynny, o bosib, sydd wedi achosi'r newid mwya' yn fy mywyd. Bu'n rhaid prynu ar-lein a dibynnu ar deulu i 'glicio a chasglu' neu yrwyr clên i ddelifro i'r drws. Canlyniad hyn oedd defnyddio llai a llai o Saesneg nag arfer. Gwir bod pob un gyrrwr (ond un) yn siarad yr iaith fain nad oeddwn i wedi'i defnyddio o ddydd i ddydd dros y tri mis!

O ran gwylio teledu – mae'r adeg hon o'r flwyddyn, yn draddodiadol, yn gyfnod lle mae'r deunydd gwannaf yn cael ei stwffio i'r siediwl, beth bynnag. Cyfunwch hynny â'r diflastod o weld yr un stori flaen ar y newyddion bob dydd a nos, a rydwi lawr i bron "sero" o ran oriau gwylio. Bron na ddylwn i ofyn am ddisgownt ar fy nhrwydded – ond mae hi am ddim beth bynnag, er na wn i ddim am ba hyd chwaith!

Colli awydd gwylio'r teli
Pointless, One Show, Niws , Cwmderi
Osgoi Huw ap Hywel Teifi
A'r Welsh Guards yn ei phen-blwydd HI!

Er bod gen i gefndryd wedi'u magu o fewn cic gornel i gae West Brom, mi ddylwn i gyfaddef mod i wedi cael trafferth gyda'r iaith fain o fy mabandod. Bu rhaid i'r Brummies rheiny ail-afael yn eu 'Cymraeg ifaciwîs' i gyfathrebu efo fi yn y dyddiau cynnar. A phan es i'r ysgol gyfun, bu i bawb, ie pawb (ond un ferch na ddaeth i unrhyw arholiad arall) fethu eu Saesneg Lefel O yn ein blwyddyn ni un Haf. Ond pasiodd pawb yr ail-gynnig yn yr Hydref!

I fod yn deg, yr adeg honno, prin oedd galw am y Saesneg yn ein hardal wledig. Mater arall oedd mynd i lawr i Fiwmaris, ble roedd yna "dedi-bois" dinesig yn achosi dychryn i bawb, yn aml drwy gyfrwng yr Americaneg/Saesneg, oedd, erbyn meddwl, yn debycach i acen hogia' Bangor, Arfon, na Bangor, Maine.

Ond yn ôl at yr ail iaith. Rydwi wedi stryglo cyn heddiw i ymdopi efo'r iaith drws nesaf. Cael blancs wrth ddod at air ddylwn i fod yn ei gofio. Hyd yn oed wrth drafod "Yr Eryr" gyda fy meddyg teulu - Cymro Cymraeg nad oedd yn gyfarwydd â'r enw am yr aflwydd yn iaith y nefoedd - fedrwn innau yn fy myw a chofio'r enw "shingles" amdano.

A pheidiwch a f'atgoffa am achos mwy diweddar, lle roeddwn i awydd cael rhywbeth i ladd gwybed! Cerddais i siop fach-bob-dim yn Nhreganna a gofyn:

"Have you got anything against flies?"
"Not particularly!" oedd yr ateb.

Och eto! Oherwydd y prinder sgyrsiau rydwi wedi eu cael yn y locdown, fe waethygodd pethau dros y misoedd diwethaf:

Colli ymadroddion Saesneg
Colli rhediad ei gramadeg
Colli popeth am ddwyieitheg
ac wedyn gorfod cau fy ngheg

Mi fedra i bellach gydymdeimlo â fforman "Carreg Onnen", y chwarel leol gyflogai fy nhad a'i gyd-bentrefwyr i gloddio am gerrig calch i ddociau Lerpwl. Prin oedd Saesneg Dafydd Rolant wrth gyfathrebu gyda'i reolwr di-Gymraeg, ond roedd am riportio gweithiwr oedd yn absennol yn aml ac yn awgrymu y dylid ei sacio:
"Ddêrs a man hiâr todê hw isnt hiâr. And iff hîs not hiâr twmoro, wîl send him hôm!"

Hyd yn oed wrth drafod y tywydd, rydwi'n cael blancs wrth ymgomio gyda rhai o'r rhai mwy cymdeithasol sy'n oedi wrth basio'r tŷ (a choeliwch fi, mae 'na lawn cymaint sy'n gwibio heibio heb ddweud dim!).

Fe aeth hi'n nos arnai'r dydd o'r blaen. Unigolyn cwbl ddiarth yn gofidio fod yr ynysu yn parhau i fod yn anodd. Minnau ar fin ceisio ei gysuro. Allwn ni feddwl am ddim gwell na: "There will come again sun on the hill!"
Trodd yntau i gyfeiriad Y Garth mewn anghredinedd – roedd y storm o derfysg honno ar fin ein cyrraedd a dim golwg o "haul ar fryn".

Oedd yna ddyfyniad Saesneg fyddai wedi bod fwy yn addas, dwedwch? A ddylwn i fod wedi cofio am y "Blw byrds ofar, y Weit Cliffs o Dofar"? Dwi'n drysu braidd o fynd o un iaith i'r llall:

Ai cyrtens caffi ydy "bwydlen"?
Neu fan i gŵn 'di ystyr "dogfen"?
A pheidiwch holi be' 'di "cacen"!
Mae'r tri mis 'di ngwneud i'n hen!

Hanes Tonyrefail

Mae nifer o haneswyr wedi ymddiddori yn hanes Tonyrefail dros y blynyddoedd..

Yn 1899 cofnodwyd atgofion y Parch Thomas Morgan mewn llyfr a gyhoeddwyd gan Morien.

Ynddo cawn atgofion am y pentrefwyr, y ffermwyr, masnachwyr, y Gweinidogion a'r capeli.

Dyma ddisgrifiad Thomas Morgan o'r pentref yn 1840 :- '

Yr oedd y Ton yn un o'r pentrefi mwyaf cyfleus; yr oedd y lle yn fath o "golony" bychan, a phob peth ynddo at wasanaeth dyn. Yr oedd yno felin yd; yr oedd yno weithdy gwlan, a gwneid yno frethynau a gwlaneni o bob math; a maelfa gof. Mae yn debyg mai am hyny ei enwyd yn Dwyn yr Efail. Yr oedd yno hefyd deilwriaid, seiri, a chryddion, a siopau – un ar y Ton, a'r llall yn mhlas Abernodwydd, a thua haner milldir oddiwrth ei gilydd. Yr oedd yno hen dafarn hir wedi ei doi a gwellt; yr oedd yr hen dafarn mor henafol, fel yr oedd ei furiau fel coesau hen wr yn dyoddef oddiwrth glefyd y giau, a elwir yn Saesneg yn "rheumatism," yn ymddangos yn lled adfeiledig. Yn hwn y cynelid "Clwb Benefit," ac yr oedd yn cynwys 120 i 140 o aelodau, wedi dyfod yn nghyd o wahanol fanau, filldiroedd o gwmpas. Yr oedd yr holl ffarmwyr drwy yr holl ardaloedd amgylchynol yn aelodau ohonno; a thrwy eu hesiampl dda, yn dylanwadu yn llesol iawn ar bobl llai ffodus na hwy eu hunain.'

Gallwch ddarllen y llyfr cyfan ar wefan www.kimkat.org. Hefyd argraffwyd cyfieithiad Saesneg yn ddiweddar.

Yn yr 1970'au bu Dilwyn Lewis yn casglu atgofion pobl y pentref ac fe'u cyhoeddwyd mewn llyfryn sydd erbyn hyn yn brin iawn.

Roeddem yn ffodus fod y diweddar D.J.Davies wedi dilyn trywydd nifer o hanesion y pentref tra'n ohebydd i Tafod Elái a gobeithir eu hail gyhoeddi cyn bo hir.

Yn ddiweddar mae Athro ym Mhrifysgol London, Ontario, Canada wedi rhoi llawer o wybodaeth ar ei wefan. Magwyd Dr. William Church yn Thomastown, Tonyrefail. Aeth i'r Ysgol Ramadeg ac yna Prifysgol Caerdydd i astudio Daeareg. Mae wedi casglu atgofion o'i fagwraeth a hanes yr ardal. Mae hefyd wedi crynhoi straeon am gymeriadau y pentref.

Mae'r capeli ac eglwysi wedi bod yn rhan bwysig o fywyd y pentref ac yn 2006 casglwyd hanes yr addoldai gan gymdeithas U3A y pentref. Hefyd mae

Tonyrefail 1920 gyda'r orsaf rheilffordd
2020 gyda'r ffordd osgoi

Steve Kiff wedi casglu dau lyfryn o Donyrefail mewn lluniau.

Yr arbenigwr ar Tonyrefail oedd y diweddar Walter Jones. Cyhoeddodd lyfr 'Tonyrefail - The story of a community' yn 1997 ac yn ffodus i ni rhoddwyd braslun o'r hanes yn rhifyn Medi 1990 o Tafod Elái -

Hanes Pentref Tonyrefail

Braslun o hanes y pentref a baratowyd gan Walter Jones yn 1990.

Saif Tonyrefail o fewn milltir i darddiad yr afon Elái ac o fewn milltir i Gwm Rhondda. Ffurfiwyd y dirwedd yn Oes yr Ia gan rewlif a oedd yn gorchuddio y rhan fwyaf o Gymru ac a ddywalltai i lawr o Fannau Brycheiniog a bryniau Morgannwg. Roedd Tonyrefail yn agos at ffin y rhewlif gan fod mewn ardal ble roedd y rhewlif yn arafu ac yn gollwng ei lwyth o fwd a cherrig. Yn wir saif Ysgol gyfun Tonyrefail ac ardal Tynybryn ar farian - bryn bychan o gerrig a chial a adawyd gan y rhewlif.

Daw'r cofnod cyntaf o'r enw 'Tonyrefail' yng Nghofrestr Plwyf Llantrisant yn 1732 lle cofnodir yr enw 'Tonyrevel'. Am ganrifoedd adnabuwyd y gymuned fel pentref 'Trân', un o bum pentref ym mhlwyf Llantrisant. Yn gynharach fyth roedd yn rhan o Gwmwd Glyn Rhondda.

Mae'r enw presennol yn arwydd o dyfiant o gymuned fechan o grefftwyr yn yr 18fed ganrif yn agos at y sgwâr presennol. Cyfeiria'r enw at yr Efail a'r cae cyfagos - Y Ton - i bori'r ceffylau ac yn wir y gwartheg yn barod yw pedoli.

Mae Tonyrefail yn parhau yn dref cymharol fechan wedi ei amgylchynu gan fryniau hollol wledig ac ar y bryniau gwelir olion o ddyddiau cynnar dyn yn yr ardal. Saif nifer o gromlechi'r Oes Efydd ar y bryniau - tra i'r de ac i'r gorllewin yn y Caerau ac ar Fynydd y Gaer saif dwy gaer o'r Oes Haearn. Yr amser hwnnw buasai llawr y cwm yn goedwig drwchus a sefydlwyd y cymunedau cyntaf ar y bryniau.

Parhad ar dudalen 15 >



Hanes Tonyrefail

Parhad o dudalen 14

Does dim llawer o olion y Rhufeiniad yn yr ardal er y sefydlwyd Gwersyll yn Pencoedcae.

Y Normaniaid ddaeth â'r newidiadau cyntaf i'r ardal gydag adeiladu'r castell yn Llantrisant a chlirio'r comin er mwyn gweld unrhyw ymosodiad gan y Cymry trafferthus i'r gogledd o'r castell.

Yn araf llwyddodd y Normaniaid i ymestyn eu rheolaeth dros Forgannwg gyfan ac erbyn y pymthegfed ganrif gwelwn dyfiant y ffermydd a fyddai'n rheoli'r Trân am y 350 mlynedd nesaf. Adeiladwyd ffermdai sylweddol a bu cyfoeth yn nheuluoedd yr amaethwyr - saif tai Collena, Tylcha Fawr, Gellirhaidd Craigfatho yn dystiolaeth i adeiladwaith y 16eg a'r 17eg ganrif. Mae'n werth ymweld â rhai o'r ffermdai o'r cyfnod honno.

Hyd yn oed ar ganol y 19eg ganrif roedd rhan fwyaf y boblogaeth yn byw mewn ffermdai a thyddynnod ac mae Map y degwm 1840 yn dangos 15 adeilad o gwmpas y Sgwâr gan gynnwys Capel y Ton, y Capel Methodist cyntaf yn y pentref. Mae'r map a chyfrifiad 1841 ac 1851 yn dangos cymuned wledig a'r prif ddiwydiannau oedd y felin flawd a'r ffatri wlân a oedd yn defnyddio dŵr wedi ei gronni mewn llynnoedd oedi ar yr Afon Elái a Nant Cae'r Ysgol. Ariannwyd y datblygiadau diwydiannol hyn gan Evan Pritchard, Collena yn 1791 am ei fod am ddatblygu'r ardal yn fasnachol. Er hynny dim ond effaith cymharol fach a gafwyd ar dyfiant y pentref gyda nifer o fythynnod ar hyd Stryd y Felin a ger Eglwys Sant Ioan (Capel bychan o'r fam -eglwys yn Llantrisant a adeiladwyd yn yr 17eg ganrif).

I'r gogledd o Donyrefail, erbyn canol y 19eg ganrif, roedd Cwm y Rhondda yn gweld datblygiadau diwydiannol sydyn gyda suddo pyllau a gyrru lefelau glo drwy'r cymoedd ond parhaodd Tonyrefail i fod yn gymuned wledig. Yn yr 1860'au daeth perchnogion pyllau glo'r Rhondda i ddatblygu cronfeydd Cwm Elái ac yn y cyfnod hwnnw yr adeiladwyd rheilffordd y cwm i gysylltu Llantrisant, Tonyrefail a Phenygraig. Suddwyd pyllau'r Glyn, Collena a'r Cilely yn yr 1870'au ac yn 1901 suddwyd pwll mwyaf y cwm sef y Coed Lai gyda'r gwaith golosg cyfagos yn agor yn 1914.



Glofa Cilely

Yn sgil y datblygu diwydiannol tyfodd nifer y boblogaeth yn sydyn iawn ac agorwyd siopau newydd a mannau addoli - nifer mwy o gapeli nac o eglwysi. Er hynny parhaodd Tonyrefail yn bentref mawr Cymraeg ei hiaith hyd y Rhyfel Byd Cyntaf. Magwyd nifer o bregethwyr yn yr ardal (yr enwocaf ohonynt oedd William Evans, tadcu Ivor Novello) ac yn ddiweddarach ym myd chwaraeon Cliff Morgan yn un o gewri rygbi yng Nghymru.

Hyd 1868 roedd addysg yng ngofal ysgolion preifat ond gyda chynnydd yn y boblogaeth adeiladwyd yr Ysgol 'Brydeinig' gyntaf (gyda chefnogaeth y Capeli) yn 1868. Daeth ysgolion o dan ofal y Bwrdd Ysgolion yn 1870 ac agorwyd ysgolion yn Cwmlai a Gellidawel ar yr un adeg i wasanaethu'r tyfiant yng nghymunedau Trethomas ac ardal Redgate. Yn ddiddorol iawn agorwyd yr ysgol Gynradd ddwyieithog yn Nhonyrefail yn adeiladau'r hen Ysgol Brydeinig ar ddechrau'r 1950'au.

Caeau Tynybryn a Mynydd y Glyn yn y cefndir

Caewyd glofeydd y Glyn a'r Collena cyn y Rhyfel Byd Cyntaf ac roedd y boblogaeth o ryw 3000 yn cael eu cynhaliaeth o lofa Cilely a gaewyd yn 1959 a'r Coed Elái a gaewyd yn yr 1980'au.

Erbyn hyn mae olion y diwydiant glo yn diflannu o'r tir ac mae'r boblogaeth yn teithio i weithio i'r Ystadau Diwydiannol yn Ynys Maerdy ac ymhellach. Mewn llawer ffordd mae'r cwm yn troi'n ôl yn gwm gwledig gyda golygfeydd prydferth o'r bryniau o amgylch pentref Tonyrefail.



Glofa Coed Elái

CANOLFAN DYSGU GYDOL OES
Garth Olwg